Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

**Gwybodaeth gefndirol am Lyn Celanedd** (ymgynghoriad ar newid enw Gwarchodfa Natur Spinnies Aberogwen)

**Mae gwybodaeth hanesyddol wedi dod i'n sylw ni, gan ddarparu tystiolaeth ar gyfer newid enw o "The Spinnies Aberogwen" i "Llyn Celanedd". Polisi'r Ymddiriedolaeth yw "Lle mae gan eiddo enw Saesneg, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i bennu a defnyddio ei enw Cymraeg". Rydym yn falch o fod â gwreiddiau yn ein hardal leol, ac adlewyrchu'r diwylliant, y ddaearyddiaeth a'r bywyd gwyllt sy'n gwneud Gogledd Cymru mor arbennig. Rydym yn cefnogi'r syniad o adfywio enwau lleoedd Cymraeg, ac yn cofleidio'n llawn y berthynas agos rhwng pobl a'u hamgylchedd lleol.**

Mae gwybodaeth hanesyddol, lenyddol a daearyddol yn awgrymu bod Llyn Celanedd yn bwll ar lwybr troellog Afon Ogwen cyn iddo gael ei sythu i greu'r aber a welwn ni heddiw. Am y rheswm hwn, rydym yn gofyn am eich ymateb i'r newid enw, ynghyd â'r safbwyntiau cadarnhaol rydym wedi'u derbyn eisoes gan lawer o bobl a sefydliadau lleol.

Rydym wedi prydlesu ein gwarchodfa natur gan Stad y Penrhyn ers 1985, a'r enw arni oedd Spinnies, Tal y Bont ar y gofrestrfa tir. Yn absenoldeb enw arall, fe'i newidiwyd gennym yn y 1990au i Spinnies Aberogwen i adlewyrchu ei lleoliad gydag enw Cymraeg. Mae gan y rheswm pam mae Llyn Celanedd yn cael ei gynnig nawr gyd-destun hanesyddol rhyfeddol.

Mae'r cofnod ysgrifenedig cyntaf o'r enw Llyn Celanedd, sy'n golygu llyn y cyrff meirw, yn dyddio i 1866, lle mae Hugh Derfel Hughes yn "Hynafiaethau Llandygai a Llanllechid Antiquities" yn cofnodi bod *"Aberogwen hefyd oedd hynod fel lle y dadlwythid o'r cewyll ac y llwythid i'r llongau, lechi y Fronllwyd, 300 mlynedd yn ôl. Yr oedd hen wely yr Ogwen yn myned trwy "Lyn Celanedd" ac heibio y drws, ac yn y fan hon yr amaethid gwelyau wystrys gynt. Hugh Hughes, Ysw., sydd yn byw yno yn bresennol.*

ABEROGWEN hefyd oedd hynod fel lle y dadlwythid o'r cewyll ac y llwythid i'r llongau, lechi y Fronllwyd, 300 mlynedd yn ol. Yr oedd hên wely yr Ogwen yn myned trwy " Lyn Celanedd" ac heibio y drws, ac yn y fan hon yr amaethid gwelyau wystrys gynt. Hugh Hughes, Ysw., sydd yn byw yno yn bresenol.

Dros ganrifoedd lawer cyn hynny (o 1237), mae sawl cyfeiriad at bwysigrwydd Capel Ogwen (ychydig i'r de orllewin o Spinnies Aberogwen) fel lleoliad lle cadwyd cyrff yr ymadawedig o deulu aristocrataidd y Penrhyn cyn iddynt gael eu cludo ar draws Afon Menai i safle claddu cysegredig ym Mrodordy Llanfaes. Sefydlwyd y safle hwn wyth gant o flynyddoedd yn ôl gan Llywelyn Fawr, Tywysog Gwynedd. *"Roedd gan y Penrhyn yr hawl bob amser i gludo o'r llecyn i arfordir Ynys Môn, ac mae'r hawl hon yn parhau hyd heddiw, a thelir rhent o ddeg swllt yn flynyddol gan gychwr."* Williams, W. (1806). Arolwg o Gyflwr Hynafol a Phresennol Sir Gaernarfon.

Yn 1237 cofnodwyd bod corff Siwan, gwraig Llywelyn ap Iorwerth a merch brenin Lloegr, wedi'i gludo o Lys Llywelyn, Abergwyngregyn i'w gladdu mewn gardd gysegredig ger y traeth yn Llanfaes.

Gan ei fod ar aber, mae'r berthynas rhwng afon, môr a thir wedi newid dros amser, ac felly nid yw nodi hanes daearyddol y safle yn wyddoniaeth fanwl gywir. Fodd bynnag, mae hen fapiau'n dangos llwybr gwahanol iawn i Afon Ogwen, cyn iddi gael ei sythu rywbryd yn y 1820au i'r 30au. Mae'n ymddangos bod lleoliad gwreiddiol Llyn Celanedd yn bwll ar ddolen droellog Afon Ogwen yn Aberogwen. Bryd hynny, roedd yr afon yn cyrraedd Afon Menai lle mae'r maes parcio arfordirol heddiw. Mae mapiau hanesyddol


yn dangos bod Llyn Celanedd yn yr un lle â môr-lyn presennol Spinnies, Aberogwen, yr ydym yn gyfarwydd ag ef heddiw. Ynghyd â Llyn Celanedd, rydym wedi cael gwybod am enwau ar gyfer y pyllau eraill ar Afon Ogwen: Llyn Gwreiddiau, Llyn Du, Llyn Deintur, Llyn y Dderwen Gam, a Llyn Cerrig Melyn. Byddai dychwelyd at yr enw Llyn Celanedd yn dod â'r pyllau afon mwyaf arfordirol o'r rhain yn ôl ac mae'n teimlo'n fwy priodol na'r "Spinnies Aberogwen" mwy diweddar, sy'n golygu ardal fechan wedi'i gorchuddio â choed wrth aber Afon Ogwen.

Manylyn o Fap Arolwg Penrhyn gan George Leigh **1768.**




Darn o fap 1828 o Barc Penrhyn


Extract of 1828 map of Penrhyn Park



Map o **1910** yn dangos Aberogwen ar ôl i lwybr Afon Ogwen gael ei sythu




Capel Ogwen



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Capel Ogwen Hugh Prichard | | | | | |
| 6 | A | Building & Gardd y Capel | 1 | 1 | — |
| | B | Cae'r Ychain | 2 | 3 | 4 |
| | C | D° | — | 2 | 16 |
| | D | D° | — | 2 | 38 |
| | E | D° | 3 | 3 | 22 |
| | F | D° | 2 | 1 | 4 |
| | G | D° | 5 | 1 | 4 |
| | H | Cae'r Efail | 4 | 2 | 14 |
| | I | Gardd Bach | — | — | 20 |
| | K | Cae'r Ychain | 2 | — | 32 |
| | L | D° | — | 2 | 8 |
| | M | D° | 1 | — | 30 |
| | N | D° | 3 | 2 | |
| | O | Morva | 2 | — | 4 |
| | | Demesne Land Total | 31 | 0 | 1 |

"Llyfr arolygu yn cynnwys cynlluniau stad y Penrhyn yn siroedd Caernarfon a Dinbych, gogledd Cymru, oedd yn eiddo i Richard Pennant Ysw." Mae ar gael yn ddigidol a gellir ei weld yma. Mae hwn yn rhoi dadansoddiad o'r holl gaeau a thiroedd oedd yn eiddo i Stad y Penrhyn sy'n ymddangos ar y map PENRA/2205 a'r un tebyg o Lanllechid PENRA/2203 a mapiau eraill a arolygwyd o'r ardal yn 1768.



Mapiau Degwm Cymru - 1839




Map o tua 1820 (Swyddfa Penrhyn) yn dangos Llyn Celanedd yn y tro yn Afon Ogwen cyn i'w llwybr gael ei sythu